# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 11eg CHWEFROR 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Dafydd Thomas (Cad) - Nebo, Justin Davies, Judith Humphreys, Barry Bracegirdle - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni, Harry Owen, Siân Dafydd, Gareth Jones, Nigel Williams - Talysarn. Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** - Ceri Owen ac Erfyl Williams - Penygroes.

2. **Datgan buddiant** – pwynt 11 Siân Dafydd – Ceisiadau cynllunio.

3. **Cofnodion cyfarfod 14eg Ionawr 2025** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Sedd Wag Penygroes** - nid oedd enw wedi dod i law yn dilyn hysbysebu'r sedd wag. **Golau Nadolig** - y golau Nadolig wedi eu tynnu i lawr ac yn disgwyl nawr i LITE drefn dod i'w pigo fyny. Angen holi LITE am brisiau golau "Rope" a hefyd cael pris gan RJ Electrics am osod, tynnu a storio'r rhain fel gyda'r golau eraill. **Blwch Ffôn Tanrallt** - wedi cael ar ddallt nad ydi Tomi Roberts a Danial Mahoney mewn cysylltiad bellach ynglŷn â'r blwch. Y clerc wedi cysylltu â pherchennog y tir ble mae'r blwch ac mae yn fodlon i'r Cyngor Cymuned ei fabwysiadu ar yr amod mai Cymraeg pennaf fydd y wybodaeth ynddo a hefyd bod y wybodaeth yn lleol i Tanrallt. Hefyd wedi cysylltu â BT am hyn.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Y mater pennaf sydd o bryder yw'r drafodaeth gan Gyngor Gwynedd eu bod am gau ysgolion Bala Deulyn a Nebo. Roedd y mater yn cael ei drafod yn y cabinet heddiw ond nid oedd wedi derbyn adroddiad cyn y cyfarfod hwn. Adroddwyd bod criw ardal ni wedi bod o gwmpas yr ardal yn glanhau ayyb. ADRA wedi cytuno i drwsio'r ffens yng nghae chwarae Bro Silyn. Cyng. Peter Thomas wedi rhoi lluniau i fyny ar Facebook yn dangos ble mae bagiau baw ci wedi eu gosod - ond pobl dal ddim yn codi'r baw! Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei adroddiad a'i waith. Rhoddwyd cyfle i godi unrhyw fater a soniwyd am gyfweliad arweinydd Cyngor Gwynedd am y mater gyda Neil Foden a bod y cyfweliad yn siomedig dros ben a bod angen i'r Cyngor Cymuned fynegi pryder ynglŷn â hyn gan fod Ysgol Dyffryn Nantlle yn cael ei grybwyll yn y cyfryngau a dylid pwyso bod ymchwiliad allanol llawn yn cael ei wneud am Mr Foden. Eiliwyd i hyn gael ei wneud a gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am hyn.

6. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** - **6ed Chwefror** - **Cyfraniadau Ariannol** - yn dilyn is-bwyllgor i drafod y ceisiadau a oedd wedi dod i law cynigwyd yn dilyn hwn bod tri o'r ceisiadau ddim yn cael cyfraniad, £50 yn cael ei roi i Glwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon ac yna'r gweddill yn cael ei rannu yn gyfartal sef £152.50 i bob cais arall gan eu bod yn lleol i gyd. Eiliwyd hyn a gofynnwyd i'r clerc wneud y taliadau. **Tendr torri llwybrau a mynwentydd** - adroddwyd bod dau bris wedi eu derbyn, penderfynwyd yn yr is-bwyllgor i beidio eu trafod a'i adael tan y cyfarfod llawn (11/02/25). Yn y cyfarfod llawn rhoddwyd y ddau bris ymlaen ac fe'u trafodwyd. Yn dilyn trafodaeth am y prisiau a hefyd y materion pwysig a oedd yn codi ynglŷn â'r gwaith cafwyd pleidlais ac roedd y rhan fwyaf o blaid rhoi'r gwaith i Steven Lewis. Penderfynwyd cynnig y contract iddo a'r clerc i gysylltu â threfnu cyfarfod ag o i drafod y gwaith.

7. **Taflen ariannol a chyllid** - roedd pawb wedi cael copi o'r gyllideb ymlaen llaw i'r cyfarfod i edrych drosti. Adroddwyd nad oedd llawer o ddim byd heblaw anfoneb Ifan ac Idris a chyfraniad ar y Clwb Ieuenctid i fynd allan eto yn y flwyddyn ariannol hon. Trafodwyd i gynnal is-bwyllgor cyllid i drafod cyllideb 2025/26 ac am ei gynnal ar 26ain Chwefror am 7 o'r gloch.

8. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - dwy goeden wedi disgyn ar y llwybr rhwng Wynnstay a Co-op ac yna un arall ar y llwybr gyferbyn a'r Co-op i Clwb y cyn-filwyr. Arwydd henoed ar Trem Yr Wyddfa angen ei atgyweirio. Y cerb wrth y Co-op dal yn rhydd a slab ar y palmant dros ffordd i hen safle Express yn rhydd ac angen i rywun fynd allan i'w atgyweirio. Gwter

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

yn y maes parcio dros y ffordd i'r Co-op wedi blocio ac angen ei lanhau. Gwteri o flaen 56/57 Trem Yr Wyddfa wedi blocio ac angen eu glanhau. Tyllau wedi ymddangos yn y ffordd ar Heol Buddug ac angen sylw. **Talysarn** - tyllau yn Ffordd Bryn Celyn angen sylw. Cwynion wedi eu derbyn am sgwter yn gyrru ar hyd y ffordd. Gofynnwyd i ofyn i bobl gadw cofnod o amseroedd a dyddiadau er mwyn cael rhoi tystiolaeth ymlaen i'r heddlu. Llawer o sbwriel yn cael ei adael ymhob man er bod y gymdeithas leol yn ymgynnull i'w gasglu mae dal yn broblem. Yn yr un modd mae baw cwn yn cael ei gadael ar hyd y strydoedd a hefyd yng ngardd Nant. Hefyd rhywun wed gadael giât yr ardd yn agored a defaid wedi mynd fewn a bwyta'r blodau ayyb a rhywrai wedi bod yno yn fandaleiddio'r ardd. Angen gofyn i bobl adael i bwyllgor Cyfeillion Talysarn wybod os ydynt yn gweld unrhyw beth am hyn. **Llanllyfni** - ceir wedi dechrau parcio ar y llinellau dwbl gwyn ar dop Allt Sisyllt and yn beryglus. Sbwriel ymhob man ar ochr y ffyrdd gan fod y lorïau ail-gylchu yn gadael ochrau'r lori yn agored wrth yrru drwy'r pentref a'r sbwriel yn dod allan. Gofyn i'r clerc yrru at North Wales Housing i ofyn iddynt ofyn i'w tenantiaid fynd a'u biniau a bocsys ail-gylchu i mewn yn dilyn cael eu gwagio a dim eu gadael ar ochr y ffordd/palmant tan y tro nesaf. **Nebo / Nasareth** - lôn Pant Y Gog unwaith eto yn dyllog ac angen sylw brys. Gofyn a oes modd cael bin sbwriel wedi ei osod yn Nasareth gan fod llawer o sbwriel yn cael ei adael ar ochr y ffordd yno. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a sefydliadau eraill am y materion hyn.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** – dim i'w drafod gan fod y tendr wedi ei drafod ym mhwynt 6 yn barod.

10. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth hon. Nid oedd DIM GWRTHWYNEBIAD i'r isod.

*- C24/1074/22/LL – Siop Isaf Heol Y Dŵr, Penygroes – newid defnydd i ddau dŷ fforddiadwy*
*- Trwydded eiddo - CPD Nantlle Vale ar Faes Dulyn.*

11. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Cytunwyd i bawb fynychu'r sesiwn hyfforddi Côd Ymddygiad - pawb i gysylltu â'r clerc i ddweud pa ddyddiad fydd orau ganddynt o'r ddau oedd i ddewis.

12. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.
*- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd = **£25.00***
*- Lleu – hysbys ceisiadau tendr torri llwybrau a mynwentydd = **£17.00***
*- Ifan ac Idris – gweddill anfoneb 2024/25 a gwaith ychwanegol = **£6600** (cynnwys TAW)*

13. **Diweddariad Tir Cwtin** - bu i Justin Davies a Judith Humphreys adael y cyfarfod. Roedd Lois wedi gyrru drafft o'r "Community Benefit Management Agreement" yn hwyr pnawn yma a oedd yn golygu nad oedd cyfle i bawb fedru edrych drosto nac chwaith ei drafod yn y cyfarfod heno. Penderfynwyd gadael hyn a chael is-gyfarfod yn dilyn y cyfarfod llawn mis Mawrth (trafod dyddiad yn cyfarfod 11eg Mawrth). Roedd e-bost wedi ei dderbyn gan Liz Saville Roberts ynglŷn â bod Cwtin CBC wedi adrodd iddi fod eu cyfreithiwr eisoes wedi derbyn y cytundeb prydles gan ein cyfreithiwr ni. Fodd bynnag, maent wedi codi pryderon am y ffioedd cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses hon. Mae Cae Cwtin wedi rhannu bod disgwyl iddynt dalu am eu ffioedd cyfreithiol eu hunain yn ogystal â rhai'r Cyngor Cymuned. Adrodda Cwtin CBC bod ein cyfreithiwr, sydd wedi'i leoli yn Wrecsam, wedi codi swm sylweddol uwch na'r disgwyl am eu gwasanaethau. Dywed Cwtin CBC iddynt gael dyfynbrisiau sylweddol is gan gwmnïau lleol, yn wir tua hanner y pris a godwyd gan eich cyfreithwyr chi, ar gyfer gwaith cyfreithiol tebyg.
Mae gan Liz Saville Roberts rôl niwtral, annibynnol fel Aelod Seneddol sydd yn gweithio tuag at sicrhau tegwch i bawb. Trafodwyd hyn a gofynnwyd i'r clerc ddrafftio llythyr mewn ymateb i'r e-bost.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 11eg Mawrth 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ______________________________ Dyddiad - ___________